DATGANIAD CYFLE CYFARTAL

Yr Angen

Mae rhai unigolion yn wynebu rhagfarn a gwahaniaethu. Mae Tyrfe Tawe yn cydnabod hyn ac yn derbyn y cyfrifoldeb i wrthwynebu gwahaniaethu ar unrhyw sail (megis anabledd, tarddiad ethnig, iaith, oed, statws priodasol neu fel rhiant, crêd wleidyddol, hil, crefydd, rhyw neu dueddiad rhywiol) i sicrhau fod y gwasanaeth a ddarperir yn agored i bawb.

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio sylfaen Tyrfe Tawe ar Gyfleoedd Cyfartal, a bydd yn llinyn mesur i weld a ydy'r mudiad yn llwyddo wrth weithredu'r polisi. Er mwyn gweithredu y polisi Cyfle Cyfartal fe fydd Tyrfe Tawe yn cymryd camau positif er mwyn gweithio at arfer da ymhlith aelodau a swyddogion yr wyl.

Datganiad o Fwriad

Mae Tyrfe Tawe yn ymrwymiedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn ei wasanaeth i'r gymuned. Bwriad ein polisi yw sicrhau na fydd aelod neu swyddog o'r mudiad nag unrhyw aelod o'r cyhoedd yn cael triniaeth llai ffafriol ar unrhyw sail.

Gweithredu Cadarnhaol

Mae Tyrfe Tawe yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae mynediad yn rhwydd ac yn rhydd i bob unigolyn o fewn y gymdeithas ar bob achlysur. Derbynir, oherwydd natur rhai adeiladau a lleoliadau lle cynhelir digwyddiadau, nad yw'n bosibl bob amser i gyflawni hyn.

Ymrwymiad

Mae Tyrfe Tawe yn ymrwymo i weithredu y polisi hwn a monitro'r sefyllfa yn barhaol. Ni dderbynir unrhyw weithredu yn groes i'r polisi hwn.